**Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Defnyddwyr Harbwr ABERYSTWYTH a gynhaliwyd o bell trwy gynhadledd fideo ar nos Iau, 24 Hydref 2024**

**Yn cynrychioli Cyngor Sir Ceredigion:** Y Cynghorydd Keith Henson (Cadeirydd) Y Cynghorydd Endaf Edwards

**Swyddogion a oedd yn Bresennol:** Rhodri Llwyd, Owen Morgan, Katy Spain a Dana Jones

**Defnyddwyr yr Harbwr**: Brian Davies, Adam Knowles, Martin Haigh, Jim Palmer, Johara Sykes-Dale

(7.30pm – 7:55pm)

1. **Ymddiheuriadau**
   Dim.

2. **Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2024**
   CYTUNWYD bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2024 yn gofnod cywir.

   **Materion yn codi**

3. **Diweddariad am Wasanaethau Harbwr**
   Rhoddwyd diweddariad gan Reolwr yr Harbwr, fel y cyflwynwyd yng nghylchlythyr Dyfroedd Tawel.

   Adroddwyd bod arwyddion yn eu lle ar sawl ysgol yn yr harbwr gan bod gofyn eu trwsio. Er bod rhai ysgolion wedi cael eu trwsio, mae ail gyfran y gwaith wedi cychwyn.

   Gwnaethpwyd cais i NRW am drwydded forol er mwyn carthu a dyddodi, ni chafwyd unrhyw ymateb hyd yn hyn.

   Adroddwyd nad yw gwasanaeth Clic ar gael dros y penwythnos, felly byddai perchnogion cychod yn gallu talu am lansio yn ystod y dydd neu angori fel ymwelwyr trwy system dalu ar-lein ar wefan CS Ceredigion cyn bo hir, a oedd wedi cael ei datblygu yn ddiweddar. Byddai defnyddwyr yn gallu cael mynediad i hon ar eu ffonau symudol trwy'r wefan neu yn swyddfa'r Harbwr, a byddai cymorth yn cael ei roi gan aelod o Dîm y Gwasanaethau Harbwr, yn ôl yr angen, ar gyfrifiadur y swyddfa

   Adroddwyd y gwelir cydymffurfiaeth dda â'r Cynllun Rheoli Gwastraff Porthladd.

   Byddai gwaith i glirio gweddillion o'r harbwr yn cael ei gaffael a byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i gyflawni'r gwaith hwn yn unol â'r gyllideb sydd ar gael.

DRAFT

4. **Rhestr Aros am Angorfeydd wedi'i Golygu**
Cytunwyd nodi'r rhestr aros am angorfeydd fel y'i cyflwynwyd.

5. **Cynnal a Chadw Cyffredinol a Glendid**
Cytunwyd nodi'r diweddariad.

6. **Materion a godwyd gan Ddefnyddwyr yr Harbwr**
Gan gynrychioli Cyngor Tref Aberystwyth, ac RNLI, hysbyswyd y Swyddogion gan y Cynghorydd Brian Davies o bryderon defnyddwyr yr harbwr ynghylch dyfodol bwlch y marina, y pontŵn yng nghanol yr afon a'r newidiadau arfaethedig i'r prom yn y dyfodol. Gofynnodd a fyddai modd i'r Cyngor Sir gyhoeddi datganiad i'r wasg am y sefyllfa bresennol er mwyn ymateb i'r pryderon hyn. Gan ymateb, dywedodd y CLO nad yw hi'n briodol rhoi sylw i'r holl sibrydion trwy gyfrwng datganiad i'r wasg, fodd bynnag, dywedodd bod y les ar gyfer y marina gyda'r gweinyddwyr ar hyn o bryd, ac na fu unrhyw drafodaeth gydag unrhyw sefydliad neu gwmni arall am ei ddyfodol. Dywedodd ei fod yn nodi'r pryderon ynghylch cyflwr y pontynau ac y byddai'r Cyngor yn eu harchwilio ac yn gweithredu yn ôl y gofyn.

Dywedodd Rheolwr yr Harbwr bod cydweithwyr ym maes dylunio asedau wedi cael cyfarwyddyd i lunio cais cyn cynllunio am y bont, rhag ofn y byddai cyllid ar gael yn y dyfodol. Ni fyddai'r gwaith hwn yn effeithio ar y fynedfa i'r bwlch na llithrfa y marina, ac y byddai hefyd yn ystyried safbwyntiau NRW am unrhyw effeithiau ecolegol y cynigon, yn ogystal ag ymgynghori gyda holl ddefnyddwyr yr harbwr.

Gofynnwyd am eglurhad ynghylch y terfynau cyflymder yn yr harbwr ac o fewn ei derfynau atfor ac a yw'r rhain yn berthnasol i'r Bad Achub. Adroddodd Rheolwr yr Harbwr bod y terfynau cyflymder yn berthnasol i holl ddefnyddwyr yr harbwr, gan gynnwys RNLI, ac eithrio yn ystod galwad allan/argyfwng, lle y dylid asesu'r cyflymder diogel mewn ffordd ddeinamig, gan roi ystyriaeth briodol i ddiogelwch a natur yr alwad allan/argyfwng ac yn unol â COLREGS. Cytunwyd y byddai RNLI yn parchu'r terfynau cyflymder a'r is-ddeddfau, gan osod esiampl dda i ddefnyddwyr harbwr eraill i'w dilyn yn ystod hyfforddiant ac ymarferion arferol. Cytunodd Rheolwr yr Harbwr rannu'r is-ddeddfau gyda Mr Davies y tu allan i'r cyfarfod.